Law Commission
Reforming the law

Biliau gwerthiant

Awgrymwyd y pwnc hwn ar gyfer ei gynnwys yn ein 11eg rhaglen. . Mae "bil gwerthiant" yn ffordd gall unigolyn ddefnyddio ei nwyddau cyfredol fel ernes dros fenthyciad. Mae'r gyfraith yn y maes hwn – gan gynnwys Deddfau Biliau Gwerthiant 1878 a 1882 – yn gymhleth ac yn ddirgel, ac yn anodd iawn i gwsmeriaid a busnesau eu deall.

Yn ymarferol, tueddir i ddefnyddio biliau gwerthiant gan fenthycwyr "llyfr log", sy'n cymryd ernes ar geir a cherbydau eraill. Yn aml, gwerthir y benthyciadau hyn i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd anobeithiol, lle nad yw ffurf arall o gredyd ar gael. Yn wahanol i gytundebau hur brynu, ni ddiogelir benthyciadau "llyfr log" gan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974. O ganlyniad, pe bai cwsmer yn methu un taliad, gall y benthyciwr gymryd meddiant o'r ased a'i werthu'n syth. Mae hefyd ddiffyg diogelwch i brynwyr. Gall person sy'n prynu car sydd (yn ddiarwybod iddynt) yn ddarostyngedig i fil gwerthiant ganfod yr ail-feddiannwyd y cerbyd gan y benthyciwr.

Yn dilyn beirniadaeth eang gan academyddion a barnwyr, ymgynghorodd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar a ddylid "gwahardd" biliau gwerthiant. Ym mis Ionawr 2011, penderfynodd y Llywodraeth yn erbyn mesurau statudol ac yn lle hynny awgrymwyd addasu codau ymarfer a darparu gwybodaeth well i gwsmeriaid. Fodd bynnag, rhoddwyd ymrwymiad i ail-edrych ar y mater pe bai problemau'n parhau.

Hoffem wybod a yw problemau â biliau gwerthiant yn parhau ac a ddylid diwygio'r gyfraith ar filiau gwerthiant.